Crynodeb Gweithredol

Canfu'r adolygiad annibynnol bob tair blynedd ar Gydraddoldeb 2025 (Eq2025) er bod angen parhaus am gyngor annibynnol, cyfrinachol i'r Llywodraeth dynnu ar brofiad bywyd pobl anabl, nid oes angen iddo barhau i'w gael ei ddarparu drwy Gorff Cyhoeddus Anadrannol. Yn wir, o dan y profion i gyfiawnhau'r angen am Gorff Cyhoeddus Anadrannol, argymhellodd yr adolygiad ni ddylai Eq2025 barhau i fod yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori, 'Gweithio'n Well gyda Phobl Anabl', o fis Gorffennaf i fis Hydref 2013, a gwnaeth ymgysylltu'n helaeth ar draws y Llywodraeth a chyda rhanddeiliaid. Gwnaethom ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad a chyswllt pellach i benderfynu ar set newydd o drefniadau.

Dyrannwyd cyllideb flynyddol o £80,000 ar gyfer y trefniadau newydd, gan gynnwys unrhyw gostau ymsefydlu.

Fforwm ymgysylltu strategol

Bydd y fforwm ymgysylltu strategol arfaethedig, **Fforwm Cyflawni Potensial** yn cael ei redeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, mewn cydweithrediad â'r Adran Iechyd. Ei fwriad fydd:

- **Cwrdd bob chwarter i gymryd rhan mewn trafodaethau thematig ar flaenoriaethau a chyfeiriad strategol,** yn seiliedig ar **wella'r canlyniadau allweddol a nodwyd gan bobl anabl ac fel y nodir yn '*Fulfilling Potensial: Making it Happen'.*** Disgwylir i'r cyfarfod cyntaf cael ei gynnal ym mis Ebrill 2014;

- Caiff ei gadeirio gan y Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl a'r Gweinidog Gwladol dros Ofal a Chymorth;

- Nodi materion penodol ar gyfer dadansoddi polisi manwl, i'w trosglwyddo at arbenigwyr o'r **Gwasanaeth Cynghori ar Bolisi Cyflawni Potensial,** ar gyfer ymdriniaeth "Polisi Lab" (sy'n cynnwys cyflwyniad byr ar y pwnc neu'r mater, wedi'i ddilyn gan drafodaethau grŵp am bolisïau i ddelio â'r mater);

- Nodi eitemau ar gyfer cyflwyno ymarferol i drosglwyddo i'r **Gynghrair Gweithredu Anabledd** neu sefydliadau cyflenwi;

- Cyfeirio syniadau ar y strategaeth sy'n berthnasol â **grwpiau'r Llywodraeth bresennol,** fel y Grŵp Cynghori Cymyn Paralympaidd (PLAG), Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant i Bobl Anabl (DPTAC) neu'r Fforwm E-hygyrchedd, i'r sefydliadau hynny i **ategu eu gwaith** ac osgoi dyblygu.

Yn wahanol i fforymau presennol y Llywodraeth, bydd y Fforwm Cyflawni Potensial yn **anabledd-benodol,** yn cynnwys **aelodau o ystod eang o sefydliadau anabledd, gan gynnwys sefydliadau llai a Sefydliadau a Arweinir gan Ddefnyddwyr Pobl Anabl rhanbarthol,** a fydd yn cwmpasu **strategaeth ar draws y Llywodraeth gyfan**.

Bydd y Fforwm Cyflawni Potensial yn cynnig **llwybr yn seiliedig ar y gymuned i mewn i Lywodraeth, drwy sefydliadau cynrychioliadol, am farn pobl anabl,** ac yn ffordd i bobl anabl leol drwy'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth. Bydd Gweinidogion a swyddogion y llywodraeth sy'n mynychu cyfarfodydd y fforwm yn agored i **broblemau gwirioneddol ar lefel leol,** efallai nad ydynt wedi cael profiad ohonynt fel arall. Y gobaith yw y bydd y berthynas weithredol hon a'i chyflawniadau yn cynnig cymhelliant i'r bobl anabl hynny nad ydynt yn aelodau o sefydliadau anabledd i gymryd rhan â hwy.

Cyngor ar bolisi

Bydd y Gwasanaeth Cynghori ar Bolisi Cyflawni Potensial yn cynnwys rhestr o ymgynghorwyr arbenigol ar gyfer pobl anabl a fydd yn darparu **mewnbwn** o ansawdd uchel **i ddatblygu a gweithredu polisi'r Llywodraeth.** Bydd gwneuthurwyr polisi **ar draws a thu hwnt i'r Llywodraeth ganolog** yn gallu cael mynediad i gyngor yr arbenigwyr i lywio eu gwaith a **sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu hystyried ar bob cam.** Bydd yr ymgynghorwyr arbenigol yn gweithredu yn ôl y gofyn gyda'r ystod eang o arbenigedd sydd ar gael i swyddogion yn ôl yr angen neu'r budd fel rhan o ddatblygu polisi'r Llywodraeth.

Bydd y rhestr o arbenigwyr ar bolisi anabledd yn cael ei gynnal fel cronfa ddata gan dîm gweinyddol canolog. Bydd y manylion a gynhaliwyd ar y gronfa ddata hon wedi'i hategu gan **fywgraffiadau llawn o'r arbenigwyr unigol** a restrir, a fydd ar gael i swyddogion sydd â diddordeb mewn cael mynediad at eu cyngor. Bydd mecanwaith adolygu yn cael ei sefydlu i ganiatáu ar gyfer gwerthuso'r cyngor ac yn rhoi hyder i Adrannau'r Llywodraeth sy'n comisiynu cyngor ar gymwysterau'r arbenigwyr anabledd a'r cyngor y maent yn eu darparu.

Bydd cyngor arbenigol ar anabledd ar gael drwy'r tîm gweinyddol **ar unrhyw gam o'r datblygiad polisi a'r broses weithredu.** Pan wneir cais gan wneuthurwr polisi am gyngor, **caiff eu gofynion eu paru** gan y tîm gweinyddol at wybodaeth, profiad a/neu gymwysterau arbenigwr neu arbenigwyr. Gellir darparu rhywfaint o gyngor penodol dros y ffôn neu drwy ddulliau ysgrifenedig, a chyswllt wyneb-yn-wyneb **ar sail unigol neu drwy ffurfio grwpiau gwaith,** gan gynnwys y rhai a sefydlwyd i ystyried materion drwy ddull "Polisi Lab".

Bydd ODI yn hwyluso defnydd o'r Gwasanaeth Cynghori ar Bolisi Cyflawni Potensial ar draws y Llywodraeth. Bydd ODI yn sicrhau ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, er enghraifft defnyddio mecanweithiau fel Gwneud Polisi Agored a rhwydwaith Hyrwyddwyr Anabledd Adrannau'r Llywodraeth.

Telir yr ymgynghorwyr arbenigol ar gyfradd ddyddiol ar sail pro rata, a'r costau o sefydlu a chynnal y gwasanaeth Cynghori ar Bolisi Cyflawni Potensial, yn ogystal â bodloni rheoli gorbenion gweithredu'r gwasanaeth.

Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu y byddai **contractio allan y Gwasanaeth Cynghori ar Bolisi Cyflawni Potensial** o bosib yn costio llai a byddai'n fwy annibynnol a chredadwy. Felly, dylai'r opsiwn hwn darparu gwell gwerth am arian. Cyhoeddir gwahoddiad i dendro maes o law.

Credwn y bydd creu'r gwasanaethau cyflenwol hyn yn cyflawni ein huchelgais o ran ehangu a gwella cyfleoedd i bobl anabl dylanwadu ar Lywodraeth yn uniongyrchol a chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau a fyddai'n effeithio arnynt.

ISDN Number: 978-1-78425-042-3